# CLYDACH RESERVOIR NEWSLETTER

May 2024

This is not a circular
Owner/Occupier

## Hello

We've got some important news to tell you about some work we need to do at Clydach Reservoir to return it to its natural state.

## Clydach Reservoir

Clydach reservoir near St Gwynno Forestry was built in 1892 to provide drinking water for the local area. However, we have changed the way we supply water to local communities over the years and the reservoir was disconnected from our network 30 years ago.

Unlike other reservoirs, this site is also too small to store any significant amount of water during stormy weather to help reduce flooding.

As a result, maintaining and investing in reservoirs to meet current reservoir safety standards, when they are no longer needed, does not represent the best use of customer money. This is why we have been exploring options on how best to return Clydach reservoir close to its natural state, while also using this opportunity to improve the local environment by minimising the impact of this man-made structure on the local ecology and biodiversity.

## What will we be doing?

By returning it close to its former state, this would involve reducing water levels to create a natural waterway through the area now taken up by the reservoir. We have examples of other sites where this has been done successfully by working with the local community to ensure it is in keeping with the surrounding landscape.

There's an illustration enclosed of how Clydach reservoir could look after we complete this work. There's a lot of research and work that needs to be done before any improvements can be made. Once these have been confirmed we will be consulting the local community over coming months on various options on how best to ensure that the site is safe, but also more accessible to residents as it is currently private land with parts of the site being inaccessible.



A visual of how the reservoir could look when the work has been completed

## Environment

Protecting the local environment will be key to this work. We are working closely with Natural Resources Wales and specialist environmental consultants with detailed ecological surveys, and assessments being undertaken to ensure that any changes made do not have a negative impact on the environment. We will keep residents and interested groups informed of this work.

## What next?

Our priority now will be developing options so that we can consult local residents and community groups on the future use of the site. **We will not be doing any work or changes to the site during this period**. We plan to arrange a public information event in September but will be writing to you with an update over coming months. In the meantime, if you have any questions about the scheme, please don't hesitate to contact **community@dwrcymru.com**.

# CRONFA DDŴR CLYDACH
# NEWYDDLEN

Mai 2024

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

## Helo

Mae gennym newyddion pwysig i'w ddweud i chi am rywfaint o waith y mae angen i ni ei wneud yng Nghronfa ddwr Clydach i'w dychwelyd ynol i sefydl agos at ei chyflwr naturiol.

## Cronfa Ddŵr Clydach

Adeiladwyd cronfa ddŵr Clydach ger Coedwig Sant Gwynno ym 1892 er mwyn darparu cyflenwadau dŵr yfed yr ardal leol. Fodd bynnag, rydyn ni wedi newid ein dull o gyflenwi dŵr ar gyfer cymunedau lleol dros y blynyddoedd, a chafodd y gronfa ei datgysylltu o'n rhwydwaith 30 mlynedd yn ôl.

Yn wahanol i gronfeydd dŵr eraill, mae'r safle hwn yn rhy fach i storio cyfaint sylweddol o ddŵr mewn tywydd stormus er mwyn helpu i leihau llifogydd.

Nid yw cynnal a buddsoddi mewn cronfeydd dŵr er mwyn bodloni'r safonau diogelwch cyfredol ar gyfer cronfeydd pan nad oes eu hangen mwyach yn ddefnydd da o arian cwsmeriaid. Dyna pam ein bod ni wedi bod yn archwilio opsiynau er mwyn canfod y ffordd orau o ddychwelyd cronfa ddŵr Clydach i'w chyflwr naturiol blaenorol, a manteisio ar y cyfle i wella'r amgylchedd lleol gan leihau effaith y strwythur yma a wnaed o law dyn ar ecoleg a bioamrywiaeth lleol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Er mwyn ei dychwelyd i gyflwr tebyg i'w chyflwr blaenorol, bydd angen gostwng lefelau'r dŵr er mwyn creu dyfrffordd naturiol trwy'r ardal lle mae'r gronfa ar hyn o bryd. Mae gennym esiamplau o safleoedd eraill lle mae hyn wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus trwy weithio gyda'r gymuned leol er mwyn sicrhau ei bod yn asio i'r dirwedd gyfagos.

Mae'r llun isod yn dangos sut y gallai cronfa ddŵr Clydach edrych ar ôl i ni gwblhau'r gwaith yma. Mae yna lwyth o ymchwil a gwaith arall y mae angen ei gyflawni cyn y gallwn wneud unrhyw welliannau, a dros y misoedd nesaf, byddwn ni'n ymgynghori â'r gymuned leol ar wahanol opsiynau ar gyfer y ffordd orau o sicrhau bod y safle'n ddiogel ond hefyd yn fwy hygyrch i drigolion, am taw tir preifat yw hwn ar hwn ar hyn o bryd ac nid oes modd cyrraedd at rai rhannau o'r safle.



Darlun yn dangos sut y gallai'r gronfa edrych ar ôl cwblhau'r gwaith

## Yr Amgylchedd

Bydd amddiffyn yr amgylchedd lleol yn allweddol i'r gwaith yma. Rydyn ni'n cydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru ac ymgynghorwyr amgylcheddol arbenigol i gyflawni asesiadau ac arolygon ecolegol manwl er mwyn sicrhau nad yw'r newidiadau a wneir yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Byddwn ni'n rhannu manylion y gwaith yma â thrigolion lleol a grwpiau sydd â buddiant.

## Beth yw'r cam nesaf?

Ein blaenoriaeth nawr fydd datblygu opsiynau fel y gallwn ymgynghori â thrigolion lleol a grwpiau cymunedol am sut y caiff y safle ei ddefnyddio yn y dyfodol. **Ni fyddwn ni'n cyflawni unrhyw waith na newidiadau ar y safle yn ystod y cyfnod hwn.** Rydyn ni'n bwriadu trefnu digwyddiad i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd ym mis Medi, ond byddwn ni'n ysgrifennu atoch eto i'ch diweddaru dros y misoedd nesaf. Yn y cyfamser, os oes unrhyw gwestiynau gennych am y cynllun, croeso i chi gysylltu â ni yn **community@dwrcymru.com**.